

Amgueddfa Cymru



Paratoi ar gyfer Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang



GWEITHGAREDDAU



PARATOI EICH SAFBWYNT PERSONOL A'CH GWEITHGAREDD CODI YMWHYDDIAETH

Bydd y gweithgareddau hyn yn eich helpu i baratoi ar gyfer yr Her Fer. Maent wedi'u llunio i'w defnyddio gyda'r Pecyn Ffynonellau cysylltiedig.

Eich her yw paratoi **Safbwynt Personol** a Gweithgaredd **Codi Ymwybyddiaeth** ar y pwnc **Cynaliadwyedd** a'r diwydiant gwlân.

Rhaid i'ch **Safbwynt Personol** gynnwys:

- Gwybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (**PESTLE**) ar y pwnc
- Eich barn bersonol am y pwnc **Cynaliadwyedd** a'r diwydiant gwlân gan wneud sylwadau am **hygredd neu ddibynadwyedd** y ffynonellau yr ydych yn cyfeirio atynt

ARCHWILIO PWYSIGRWYDD Y DIWYDIANT GWLÂN YNG NGHYMRU

GWEITHGAREDD 1: DADANSODDI FFYNONELLAU

Bydd y gweithgaredd hwn yn profi eich gallu i ddadansoddi ffynonellau.

Byddwch yn gwybod o'ch gwersi hanes pa mor bwysig yw gallu dadansoddi ffynonellau a thynnu gwybodaeth ohonynt. Rhaid i chi ddangos eich gallu i ddadansoddi ffynonellau'n effeithiol wrth gyflwyno eich safbwynt personol. Wrth ddadansoddi ffynonellau, mae hefyd yn bwysig iawn ystyried pa mor gredadwy neu ddibynadwy yw'r ffynonellau ac i ba raddau y gallwch ymddiried yn y wybodaeth sydd ynddynt

Astudiwch y ffynonellau yn y pecyn sy'n ymwneud â'r diwydiant gwlân ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Astudiwch Ffynhonnell 1. Pam rydych chi'n meddwl bod gan Gymru Amgueddfa Wlân?
2. Yn ôl Ffynhonnell 1, pa gynhyrchion a wnaed gan Ffatri Cambrian?
3. Astudiwch Ffynhonnell 2. Beth oedd y system weithgynhyrchu cartref neu ddomestig? Nodwch un fantais ac un anfantais sy'n gysylltiedig â'r ffordd hon o weithio.
4. Astudiwch Ffynonellau 3 a 4. Pa dystiolaeth sydd yn y ffynonellau hyn o'r defnydd o gynnyrch naturiol yn y diwydiant gwlân?
5. Astudiwch Ffynhonnell 4. Pam y gwnaeth melinau neu ffatrioedd gwlân ddisodli'r system weithgynhyrchu cartref neu ddomestig?
6. Pa dystiolaeth sydd yn y lluniau yn Ffynhonnell 4 o werth melinau gwlân fel y rhain i'r cymunedau gwledig diarffordd lle y'u hadeiladwyd?
7. Astudiwch Ffynhonnell 6. Pa dystiolaeth sydd yn y ffynhonnell hon bod diwydiant gwlân Cymru yn parhau i fod yn flaengar ac yn ymwybodol o'r galw diweddaraf am gynnyrch gwlân?
8. Astudiwch Ffynhonnell 5. Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw'r poster recriwtio o'r Rhyfel Mawr fel tystiolaeth o lwyddiant lifrai gwlân Brethyn Llwyd?

GWEITHGAREDD 1

Defnyddiwch y tabl isod i'ch helpu i ddadansoddi dibynadwyedd pob un o'r ffynonellau hyn yn fanwl.

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth hon yn fanwl neu'n gyfyngedig mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? A yw, er enghraifft, yn ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, yn dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu'n cyfateb i ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy e.e. a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd, neu wedi'i gorliwio? A yw ffynonellau eraill yn anghytuno ac a yw'r rhain yn fwy dibynadwy?

GWEITHGAREDD 2: DEALL A DEFNYDDIO PESTLE

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i ddysgu i adnabod yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE) ar y pwnc hwn.

Astudiwch Ffynonellau 1-12 yn y Pecyn Ffynonellau. Llenwch y tabl isod gan nodi yn y golofn ar yr ochr dde y wybodaeth o'r ffynonellau hyn sy'n ymwneud â phob un o ffactorau PESTLE.

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
GWLEIDYDDOL	Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion	
ECONOMAIDD	Cyfraniad y diwydiant gwlân at economi Cymru	

GWEITHGAREDD 2

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
CYMDEITHASOL	Pwysigrwydd y diwydiant gwlân yng nghymunedau Cymru	
TECHNOLEGOL	Y cyfarpar a'r dulliau a ddefnyddir yn y diwydiant gwlân yng Nghymru	
CYFREITHIOL	Cyfreithiau a rheolau sy'n ymwneud â'r diwydiant gwlân	
AMGYLCHEDDOL	Effaith diwydiant gwlân Cymru ar yr amgylchedd	

CYNALIADWYEDD A'R DIWYDIANT GWLÂN MODERN

GWEITHGAREDD 3: DADANSODDI HYGREDEDD FFYNONELLAU

Byddwch yn gwybod o'ch gwersi hanes pa mor bwysig yw gallu dadansoddi ffynonellau a thynnu gwybodaeth ohonynt. Rhaid i chi ddangos eich gallu i ddadansoddi ffynonellau'n effeithiol wrth gyflwyno eich safbwynt personol. Wrth ddadansoddi ffynonellau, mae hefyd yn bwysig iawn ystyried pa mor gredadwy neu ddibynadwy yw'r ffynonellau ac i ba raddau y gallwch ymddiried yn y wybodaeth sydd ynddynt.

Astudiwch y ffynonellau yn y pecyn sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a'r diwydiant gwlân modern ac atebwch y cwestiynau a ganlyn:

1. Astudiwch Ffynhonnell 1. Pa dystiolaeth sydd yn y ffynhonnell hon o adfywiad diwydiant gwlân Prydain?
2. Astudiwch Ffynhonnell 3. Pam y cytunodd y Tywysog Siarl i lansio'r 'Ymgyrch Wlân' yn 2010?
3. Rhestrwch bump o brif fanteision gwlân fel y nodwyd gan y Tywysog Siarl yn ei araith
4. Astudiwch Ffynhonnell 2. Cynlluniwch boster llawn hiwmor i dynnu sylw at un o fanteision gwlân fel cynnyrch cynaliadwy
5. Astudiwch Ffynhonnell 5. Pa wersi ynglŷn â chynaliadwyedd y gallwn eu dysgu o'r stori hon?
6. Astudiwch Ffynhonnell 6. Pa bryderon sy'n cael eu codi ynglŷn â'r diwydiant gwlân?
7. Astudiwch Ffynhonnell 7. Beth yn ôl Nicola Jenkin yw'r tair prif her i gynaliadwyedd yn y diwydiant gwlân?
8. Pa mor ddibynadwy a chredadwy yw:
 - (i) gwefan a thudalen Facebook Prosiect Gwlân Organig Cymru, a welir yn Ffynhonnell 4? Os yn bosibl edrychwch ar y ddwy ffynhonnell hyn i gael rhagor o wybodaeth gyfredol
 - (ii) yr erthygl a ysgrifennwyd ar gyfer yr 'Ethical Fashion Forum' gan Nicola Jenkin yn Ffynhonnell 7?

GWEITHGAREDD 3:

Defnyddiwch y tabl isod i helpu i lunio dadansoddiad manwl o ddibynadwyedd pob un o'r ffynonellau hyn.

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth hon yn fanwl neu'n gyfyngedig mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? A yw, er enghraifft, yn ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, yn dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu'n cyfateb i ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy e.e. a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd, neu wedi'i gorliwio? A yw ffynonellau eraill yn anghytuno ac a yw'r rhain yn fwy dibynadwy?

GWEITHGAREDD 4: DEALL A DEFNYDDIO PESTLE

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i ddysgu sut i adnabod yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE) ar y pwnc hwn.

Astudiwch y ffynonellau am gynaliadwyedd a'r diwydiant gwlân modern. Cwblhewch y tabl isod drwy nodi yn y golofn ar yr ochr dde y wybodaeth o'r ffynonellau hyn sy'n ymwneud â phob un o ffactorau PESTLE.

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
GWLEIDYDDOL	Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion	
ECONOMAIDD	Cyfraniad y diwydiant gwlân at economi'r byd	

GWEITHGAREDD 4

PESTLE	DIFFINIAD	ENGHREIFFTIAU O'R PECYN FFYNONELLAU
CYMDEITHASOL	Pwysigrwydd y diwydiant gwlân mewn cymdeithas	
TECHNOLEGOL	Y cyfarpar a'r dulliau a ddefnyddir yn y diwydiant gwlân	
CYFREITHIOL	Cyfreithiau a rheolau sy'n ymwneud â'r diwydiant gwlân	
AMGYLCHEDDOL	Effaith y diwydiant gwlân ar yr amgylchedd	

GWEITHGAREDD 5: YSGRIFENNU SAFBWyNT PERSONOL

Paratowch safbwynt personol ar y pwnc cynaliadwyedd a'r diwydiant gwlân (o leiaf 3-4 ochr A4). Gallwch gyfeirio at y wybodaeth neu'r ffynonellau yr ydych wedi'u hastudio. Cofiwch gynnwys:

- Gwybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (**PESTLE**) ar y pwnc
- Eich barn bersonol am **Gynaliadwyedd** a'r diwydiant gwlân

Cynllun Posibl:

Dechreuwch drwy wneud nodiadau o'r ffynonellau. Dewch o hyd i wybodaeth ac ysgrifennwch am:

- Bwysigrwydd y diwydiant gwlân i fywydau pobl ac economi nifer o wledydd, gan gynnwys Cymru
- Manteision gwlân fel cynnyrch cynaliadwy
- Pryderon ynglŷn â'r diwydiant gwlân a'i enw o ran cynaliadwyedd
- Eich barn chi ynglŷn â chynaliadwyedd a'r diwydiant gwlân

PWYSIG!

- » Gwnewch sylwadau am ddibynadwyedd y ffynonellau ac i ba raddau y gallwch ymddiried yn y wybodaeth sydd ynddynt
- » Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at bob un o ffactorau PESTLE, h.y. yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol ar y pwnc

Gan ddefnyddio eich nodiadau, ysgrifennwch Ddatganiad Personol (3-4 ochr A4) ar y pwnc cynaliadwyedd a'r diwydiant gwlân.



GWEITHGAREDD 6: GWEITHGAREDD CODI YMWHYBYDDIAETH

Fel unigolyn neu fel tîm (sy'n cynnwys 3–6 o aelodau), datblygwch weithgaredd i godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a'r diwydiant gwlan ar gyfer myfyrwyr ifanc a'i roi ar waith.

Cyflwynwch eich syniadau ar gyfer **Pecyn Codi Ymwybyddiaeth** gan gynnwys tystiolaeth sy'n dangos:

- sut y gwnaethoch lunio'r syniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth
- sut a pham y gwnaethoch ddewis y syniad gorau
- eich cynlluniau ar gyfer sut y gellid datblygu a gweithredu eich syniad
- manylion unrhyw dechnegau priodol ar gyfer datrys problemau a gwneud penderfyniadau y bydd angen i chi eu dysgu, eu datblygu a'u defnyddio
- y deunyddiau a'r adnoddau y bydd eu hangen arnoch

Bydd ymweld ag Amgueddfa Wlân Cymru, neu unrhyw un o amgueddfeydd eraill Amgueddfa Cymru, yn rhoi syniad rhagorol i chi o sut mae amgueddfeydd yn codi ymwybyddiaeth o faterion drwy eu defnyddio o adnoddau a'r ffordd y maent yn cyflwyno hanes.



AMGUEDDFA CYMRU

HER FER DINASYDDIAETH FYD-EANG AMGUEDDFA CYMRU

Rydym yn eich herio i ymchwilio i'r pwnc **Cynaliadwyedd** a'r diwydiant gwlân yn y byd modern.

I baratoi ar gyfer yr Her Fer hon, rydych wedi astudio ffynonellau ac wedi ymweld ag amgueddfeydd sydd wedi rhoi dealltwriaeth dda i chi o fater Cynaliadwyedd a'r diwydiant gwlân. Rydych nawr yn barod i gwblhau Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang Amgueddfa Cymru drwy ymchwilio i'r pwnc hwn wrth edrych ar bynciau a gwledydd tebyg yn y byd modern.

